**Cyngor Cynulleidfa Cymru y BBC**

**CYFRINACHOL** **CADARNHAWYD**

# COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YNG NGHANOLFAN DDARLLEDU'R BBC, LLANDAF, CAERDYDD DDYDD GWENER 2 MAI 2008

Yn bresennol:

*Aelodau'r Cyngor Cynulleidfa:*

Janet Lewis Jones (Cadeirydd ac Ymddiriedolwr Cenedlaethol dros Gymru)
Jane James
Dafydd Whittall
Arun Midha
Roy Grant
Nicola Branson
Teresa Rees
Sangeet Bhullar
Alexandra McMillan
Carl Cooper

*Staff BBC Cymru Wales:*

Menna Richards, Rheolwr BBC Cymru Wales
Clare Hudson, Pennaeth Rhaglenni (Saesneg)
Keith Jones, Pennaeth Rhaglenni (Cymraeg) a Chyfryngau Newydd
Mark O'Callaghan, Pennaeth Newyddion a Materion Cyfoes
Cathryn Allen, Pennaeth Datblygu Darlledu
Rhodri Talfan Davies, Pennaeth Marchnata, Cyfathrebu a Chynulleidfaoedd BBC Cymru Wales

*Staff Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru, Ymddiriedolaeth y BBC:*

Karl Davies, Pennaeth Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru
Siôn Brynach, Ymgynghorydd Atebolrwydd Cymru
Clair Baguley, Cynorthwy-ydd Adrannol, Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru

*Yn gwasanaethu:*

Mike Arnold, Rheolwr Technegol Adran Newyddion BBC Cymru Wales (ar gyfer eitem 34)
Clare Luke, Rheolwr Ymchwil Uned Ymddiriedolaeth y BBC (ar gyfer eitem 35)

## 31. YMDDIHEURIADAU A CHYHOEDDIADAU

Dennis Gethin
Andrew Carter

## 32. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL AC UNRHYW FATERION SY'N CODI OHONYNT

Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod llawn a chywir o'r cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 4 Ebrill 2008.

## 33. ADRODDIADAU

**Yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol**
Hysbysodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol y Cyngor ei bod wedi mynychu un o gyfarfodydd Cyngor Cynulleidfa'r Alban, a dywedodd bod y cyfarfod wedi bod yn gyflwyniad defnyddiol i'r modd y mae'r Cyngor hwnnw'n gweithredu. Hysbysodd y Cyngor y byddai Cyngor Cynulleidfa Cymru'n cynnal adolygiad o'i weithgareddau a'i ddulliau gweithredu ei hun yn ei gyfarfod nesaf.

Hysbysodd yr Ymddiriedolwr y Cyngor ei bod wedi cynnal cyfarfod ag arweinydd y Blaid Geidwadol yng Nghymru, Nicholas Bourne AC, ac y byddai'n cyfarfod ag aelodau seneddol Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn fuan.

Roedd yr adroddiad a gynhyrchwyd gan Ron Neill ynghylch yr ychydig enghreifftiau o'r adegau pan oedd y BBC wedi camarwain ei wylwyr wedi cael ei gyflwyno i Ymddiriedolaeth y BBC, a dywedodd yr Ymddiriedolwr y byddai'n rhoi adroddiad manylach i'r Cyngor yn ei gylch ar ôl cael ymateb ffurfiol y Bwrdd Gweithredol i'r adroddiad.

Roedd yr Adolygiad mewn perthynas â Chyflenwi'r Rhwydwaith yn profi i fod yn fwy cymhleth nag y rhagwelwyd, ac un o'r anawsterau oedd cytuno ar ddiffiniad ar gyfer gwaith cynhyrchu 'y tu allan i Lundain'. Dywedodd bod rhai yn awyddus i fabwysiadu diffiniad Ofcom sy'n ddiffiniad mwy heriol na'r un a ddefnyddiwyd gan y BBC yn y gorffennol.

Roedd yr Ymddiriedolaeth wedi cymeradwyo strategaeth dechnoleg a oedd yn cynnwys cyllideb am 3 blynedd, a dywedodd yr Ymddiriedolwr ei bod o'r farn ei bod yn strategaeth dda.

Dywedodd bod cynllun gwaith yr Ymddiriedolaeth i'r dyfodol wedi'i gytuno.

O ran Adolygiad Gwasanaeth yr Ymddiriedolaeth o Raglenni i Blant, cytunwyd nad oedd darpariaeth S4C i blant yn rhan ffurfiol o'r gwasanaeth ac felly, ni fyddai'n cael ei hystyried yn ffurfiol yn rhan o'r Adolygiad hwn. Yn hytrach, caiff ei hystyried yn rhan o gynllun rhaglenni BBC-S4C. Fodd bynnag, byddai'r tîm a oedd yn cynnal yr Adolygiad o'r Gwasanaeth yn ystyried y rhaglenni i blant a oedd yn cael eu cynhyrchu gan y BBC i'w darlledu gan S4C.

Hysbysodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol y Cyngor y byddai'n rhoi tystiolaeth i Bwyllgor Darlledu'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mehefin.

Roedd yr Ymddiriedolwr wedi cymryd rhan mewn rhaglen ffonio mewn ar Radio Wales ym mis Ebrill, a dywedodd ei bod yn galonogol bod nifer o'r cwestiynau a godwyd yn rhai yr oedd Cyngor Cynulleidfa Cymru wedi tynnu sylw atynt a mynd i'r afael â nhw eisoes. Byddai'n cymryd rhan mewn rhaglen ffonio mewn ar Radio Cymru ym mis Mehefin.

**Adroddiad Rheolwr Cymru**
Roedd y Rheolwr wedi cael cyfarfodydd â dau aelod o Bwyllgor Darlledu'r Cynulliad Cenedlaethol. Roedd yn ymddangos bod modd gweld i ba gyfeiriad yr oedd ystyriaethau'r Pwyllgor yn mynd, gyda chwestiynau'n ymwneud â lluosogrwydd a'r modd y caiff Cymru ei phortreadu ar y rhwydwaith yn dod i'r amlwg.

Cafwyd ar ddeall bod 5 cais wedi'u cyflwyno yn ystod y diwrnodau diwethaf am yr arian yr oedd Llywodraeth y Cynulliad yn ei ddarparu ar gyfer cynhyrchu papur newydd Cymraeg (ar-lein). Roedd hyn yn arwydd ei bod yn ymddangos bod cryn dipyn o ewyllys gwleidyddol i gynyddu lluosogrwydd yn y cyfryngau yng Nghymru.

Hysbysodd Rheolwr Cymru'r Cyngor y byddai'n mynd i gyfarfod brecwast ag Aelodau Seneddol Cymru'r wythnos ganlynol, a nododd hefyd bod seremoni wobrwyo BAFTA Cymru wedi bod yn llwyddiant ysgubol a bod BBC Cymru Wales wedi ennill sawl gwobr.

**Diwrnod Cynghorau Cynulleidfa Ymddiriedolaeth y BBC**
Diolchodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol i Jane, Nicola a Dafydd am gynrychioli Cyngor Cynulleidfa Cymru yn y digwyddiad.

Wrth adrodd yn ôl ar y diwrnod dywedont bod y sesiwn wedi bod yn ddefnyddiol. Roedd rhannu adroddiadau ar flaenoriaethau cyffredin wedi bod yn ddatblygiad defnyddiol iawn. Roedd Cyngor Cynulleidfa'r Alban wedi arwain ar faterion yn ymwneud â Chyflenwi'r Rhwydwaith, roedd Cyngor Cynulleidfa Gogledd Iwerddon wedi arwain ar y modd y caiff y gwahanol rannau o'r DU eu portreadu ar deledu a radio'r Rhwydwaith, ac roedd Cyngor Cynulleidfa Cymru wedi arwain ar y ddarpariaeth ddigidol. Dywedwyd ei bod yn ymddangos bod aelodau'r Ymddiriedolaeth yn dangos mwyfwy o ymwybyddiaeth erbyn hyn o natur real a difrifol y broblem sy'n golygu bod rhai pobl yn cael eu hamddifadu o ddarpariaeth ddigidol a mynegwyd gobaith y byddai rhywbeth yn cael ei wneud ynghylch hyn yn awr.

Yn ogystal, trafodwyd mater a godwyd gan Gyngor Cynulleidfa Cymru ynghylch cydgomisiynu gan y Rhwydwaith a'r Gwledydd a'r Rhanbarthau.

Atgoffodd Pennaeth Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru'r Cyngor y byddai, yn y dyfodol, yn gosod blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn ganlynol ym mis Rhagfyr ac y byddai hyn yn golygu hefyd y byddai angen cael ffocws arall i Ddiwrnod y Cynghorau Cynulleidfa. Atgoffodd y Cyngor hefyd y byddai gweithgor allgyrraedd y Cyngor yn cyfarfod ar 5 Mehefin ac y byddai canlyniadau trafodaethau'r gweithgor yn cael eu bwydo i gynllun gweithredu Cynyddu Effeithiolrwydd y Cynghorau Cynulleidfa a ffurf Diwrnod Cynghorau Cynulleidfa'r Ymddiriedolaeth yn y dyfodol.

**34. CYNNYDD MEWN PERTHYNAS Â'R CYNIGION AR GYFER BBC LLEOL/LOCAL**
Hysbysodd Mike Arnold, Rheolwr Technegol Adran Newyddion BBC Cymru Wales y Cyngor bod hwn yn un o'r prosiectau mwyaf uchelgeisiol a chyffrous yr oedd Gwledydd a Rhanbarthau'r BBC wedi bod ynghlwm wrtho. Dangosodd fap o'r rhyngwyneb i'r Cyngor, ac eglurodd mwy am strwythur canolog pum botwm y gwasanaeth hwn, sef newyddion, chwaraeon, y tywydd, teithio a chynnwys cymunedol. Eglurodd sut y byddai'r gwasanaeth yn gweithio trwy ddweud y gallai cynnwys cymunedol gynnwys deunydd megis cyswllt â'r rhaglen *Coast* ar deledu'r Rhwydwaith, a oedd yn rhoi cyfarwyddiadau ar gyfer llwybrau cerdded y gallai'r gynulleidfa eu defnyddio ar ôl gwylio'r rhaglen.

Gydag amser gellid ymestyn y gwasanaeth i gynnwys darpariaeth ar ddyfeisiau symudol megis ffonau symudol. Byddai'r gwasanaeth hefyd yn cynnwys cysylltiadau â sefydliadau newyddion allanol, megis papurau newydd lleol, gan gynnwys papurau newydd wythnosol lleol ym mhob rhan o Gymru.

Dywedodd y Rheolwr Technegol bod dulliau newydd o weithio'n cael eu harchwilio yn rhan o'r datblygiad hwn, a bod newyddiadurwyr fideo'n cael eu defnyddio hefyd i ddrafftio testunau ar gyfer gwefan *bbc.co.uk*. Roedd 10 gwasanaeth yn cael eu cynllunio ar gyfer 5 ardal yng Nghymru – ac roedd y safleoedd yn cyd-fynd â'r ardaloedd *Lleol i Mi / Where I live* presennol, a oedd yn eu tro yn seiliedig ar ranbarthau'r Cynulliad Cenedlaethol. Roedd gwaith ymchwil y Llywodraeth yn y gorffennol wedi dangos y pwysigrwydd yr oedd pobl yn

ei roi ar gymunedau lleol, ac ymddengys bod y canfyddiad hwn yn cryfhau yn ôl y gwaith ymchwil a gynhaliwyd yn fwy diweddar gan y Gymdeithas Hansard a'r Comisiwn Etholiadol.

Yn ogystal, gwelwyd bod y dirwedd ddarlledu'n newid a bod yr hen fodel o ddarpariaeth newyddion llinellol yn dirywio'n araf, a bod angen gwneud rhywbeth i fynd i'r afael â hyn. Dywedodd wrth y Cyngor nad oedd hyn yn golygu nad oedd lle i fwletinau newyddion yn yr arlwy ar gyfer y teledu yn y dyfodol, ond yn hytrach bod angen darparu newyddion yn ôl y galw hefyd. Roedd cyflwyno gwasanaeth lleol yn gwbl gyson â Dibenion Cyhoeddus y BBC, a byddai'r gwasanaeth hwn yn helpu i gyflawni pob un o'r Dibenion i ryw raddau.

Yn y dyfodol, y gobaith oedd y byddai newyddiadurwyr wedi'u gwasgaru'n fwy cyfartal ar draws pob rhan o Gymru ac y byddai hyn yn arwain at gynhyrchu cryn dipyn o ddeunydd a allai gael ei ddefnyddio hefyd mewn rhaglenni megis *Newyddion* a *Wales Today*.

Hysbyswyd y Cyngor y byddai'r gwasanaeth BBC Lleol/Local newydd yn cynnwys y gwasanaethau *Lleol i Mi/Where I live* presennol. Ar hyn o bryd fodd bynnag, ni fyddai agenda olygyddol y gwasanaethau Cymraeg yr un fath ag agenda olygyddol y gwasanaethau Saesneg o angenrheidrwydd, ac mae'n eithaf tebygol y bydd y gwasanaethau Cymraeg a Saesneg yn wahanol iawn i'w gilydd.

Hysbyswyd y Cyngor bod disgwyl i Ymddiriedolaeth y BBC ystyried y cynigion ar gyfer BBC Lleol/Local mewn cyfarfod yn y dyfodol agos. Roedd disgwyl hefyd y byddai ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r cynigion yn cychwyn yn fuan ar ôl hynny ac y byddai Cyngor Cynulleidfa Cymru'n cael y cyfle i ystyried y cynigion ar yr adeg honno. Y gobaith oedd y byddai canlyniad unrhyw Brawf o Werth Cyhoeddus a phenderfyniad terfynol yn cael eu cyhoeddi yn ystod gwanwyn 2009.

Gofynnodd y Cyngor ynghylch yr ardal ddaearyddol a oedd yn gallu cael darpariaeth band llydan ar draws Cymru, a pha effaith y byddai hyn yn debygol o'i chael ar fynediad. Ymatebodd y tîm rheoli trwy ddweud ei bod yn bwysig bod cymaint o'r deunydd ag sy'n bosibl ar gael i gynifer o bobl ag sy'n bosibl. Nodwyd hefyd bod tystiolaeth yn dangos bod technolegau'n cael eu cydgyfeirio, a'i bod yn debygol y byddai setiau teledu a chyfrifiaduron yn cynnig mynediad tebyg i ddeunydd darlledu mewn ychydig flynyddoedd.

## 35. AROLWG YR YMDDIRIEDOLAETH O GYLCHOEDD GWAITH DIBENION Y BBC

Croesawyd Clare Luke, Rheolwr Ymchwil Uned Ymddiriedolaeth y BBC i'r cyfarfod. Atgoffodd Cyngor Cynulleidfa Cymru ynghylch rhai o amcanion y gwaith ymchwil a gynhaliwyd yn 2007 a oedd wedi cynnig gwybodaeth allweddol i'r Ymddiriedolaeth wrth iddi gwblhau ei gwaith ar Gylchoedd Gwaith Dibenion y BBC. Yn 2008, amcanion y gwaith ymchwil oedd sefydlu meincnodau ar gyfer monitro'r modd y caiff Dibenion Cyhoeddus y BBC eu cyflawni, ac adnabod tueddiadau yn agweddau cynulleidfaoedd y BBC tuag at y Gorfforaeth.

Hysbysodd y Cyngor bod cymeradwyaeth gyffredinol i'r BBC ar ei huchaf yng Nghymru a'i bod yn uwch na chyfartaledd cyffredinol y DU. Dywedodd ei bod yn amlwg o'r gwaith ymchwil bod yr ymatebwyr yn rhoi cryn bwyslais ar ddarpariaeth newyddion ac addysg y BBC, yn ogystal â'i rôl o ran gwella dealltwriaeth o wleidyddiaeth, ond dywedodd mai dim ond 42% o'r ymatebwyr a oedd o'r farn bod Rhwydwaith y BBC yn dda am bortreadu Cymru i bobl eraill yn y DU.

Roedd yr arolwg hefyd yn mynd i'r afael â'r mater ynghylch sicrhau 'BBC ar gyfer POB cynulleidfa'. Un amcan oedd adnabod y cynulleidfaoedd hynny nad ydynt yn cael gwasanaeth digonol. Dylai'r BBC gynnal y gwerth canfyddedig ymysg y rhai sy'n fawr eu cymeradwyaeth, a chynyddu'r gwerth ymysg y rhai hynny y mae eu cymeradwyaeth yn ganolig neu'n isel. Roedd y rhai a oedd yn fawr eu cymeradwyaeth yn cynnwys menywod (yn enwedig menywod h n) a'r rheiny yn nosbarthiadau cymdeithasol ABC1 (yn enwedig y rhai h n). Roedd y rhai hynny a oedd yn isel eu cymeradwyaeth yn cynnwys pobl ganol oed, dynion C2DE a'r rheiny a oedd yn byw yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Rhoddwyd sylw i'r defnydd o'r gwasanaeth a gwerth am arian hefyd. Roedd teledu'r BBC yn cyfrif am oddeutu dwy ran o bump o'r ffigyrau gwylio, a dywedodd ychydig dros hanner yr ymatebwyr eu bod yn cael gwerth da am yr arian yr oeddent yn ei dalu am ffi'r drwydded deledu.

Yn ogystal ag ystyried dosbarthiad y cyfranogwyr yn ôl y mesurau mwy traddodiadol megis rhyw, dosbarth cymdeithasol a chefndir ethnig, roedd yr arolwg yn gofyn i'r cyfranogwyr nodi p'un a oeddent yn byw mewn ardal drefol neu ardal wledig.

Defnyddiwyd hunaniaeth genedlaethol, tueddfryd rhywiol, ffydd a phobl ag anableddau fel dangosyddion ar gyfer yr arolwg hefyd.

Roedd y gwaith ymchwil yn ystyried y gwasanaethau sy'n cystadlu â'r BBC hefyd, a gofynnwyd i'r ymatebwyr a fyddent yn gweld eisiau'r gwasanaethau hynny pe byddent yn diflannu. Y prif grwpiau o bobl a fyddai'n gweld eisiau ITV pe byddai'n diflannu oedd yr ymatebwyr iau, a menywod iau yn enwedig. Roedd y rheiny a fyddai'n gweld eisiau Channel 4 hefyd yn cynnwys cynulleidfaoedd iau. Nododd cyfranogwyr o gefndir ethnig lleiafrifol y byddent yn gweld eisiau SKY pe na byddai'n bodoli bellach.

Roedd yr arolwg yn un eang iawn, ac roedd gwaith yn parhau i gael ei wneud i dynnu'r holl wybodaeth o'r gwaith ymchwil hwn.

Gofynnwyd i'r Rheolwr Ymchwil a oedd yr arolwg yn gwahaniaethu rhwng siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg. Dywedodd y Rheolwr Ymchwil bod hwn wedi bod yn un o'r dangosyddion yn yr arolwg, ond bod angen gwneud mwy o waith i ddarganfod y gwahaniaethau rhwng y grwpiau hyn.

Yn ogystal, gofynnwyd i'r Rheolwr Ymchwil a oedd gwahaniaeth rhwng canfyddiad a realiti o safbwynt deall pa mor dda yr oedd y BBC yn llwyddo i wireddu'r Dibenion. Nodwyd y byddai'n anodd iawn nodi'r gwahaniaeth hwn.

## 36. ADOLYGIAD OFCOM O DDARLLEDU FEL GWASANAETH CYHOEDDUS

Gan gyfeirio at rai o'r pwyntiau diddorol a oedd wedi codi yn ystod y drafodaeth anffurfiol a gafwyd â Chyfarwyddwr Ofcom Cymru y noson flaenorol, pwysleisiodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol bwysigrwydd y drafodaeth hon.

Hysbysodd y Cyngor bod amser yn brin gan fod dyddiad cau Ofcom ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad ar 19 Mehefin. Dywedodd ei bod hi'n gobeithio y gallai sylwadau Cyngor Cynulleidfa Cymru ddylanwadu ar drafodaeth yr Ymddiriedolaeth, a dywedodd y byddai'n gweithio â Phennaeth Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru er mwyn paratoi cyflwyniad drafft i'r Ymddiriedolaeth erbyn 13 Mai. Gofynnwyd i aelodau Cyngor Cynulleidfa Cymru ymateb i'r drafft hwnnw a chynnig sylwadau arno erbyn 12 Mai. Pwysleisiodd bod llais

y Cyngor Cynulleidfa'n hanfodol yn y drafodaeth hon er mwyn sicrhau bod modd pwysleisio'r materion hynny a oedd o bwys arbennig yng Nghymru ac i Gymru.

Rhoddodd Pennaeth Marchnata, Cyfathrebu a Chynulleidfaoedd Cymru gyflwyniad i'r Cyngor a oedd yn tynnu sylw at rai o'r prif faterion yr oedd Ofcom yn mynd i'r afael â nhw yn ei Adolygiad o Ddarlledu fel Gwasanaeth Cyhoeddus. Dywedodd bod y materion hyn yn cynnwys y canlynol: a oedd y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn darparu'r hyn yr oedd cynulleidfaoedd yn ei ddisgwyl ganddynt; a oedd angen ymyrraeth barhaol yn y farchnad; a oedd cyfleoedd newydd ar gael i ddarparu gwasanaeth cyhoeddus o'r fath; ac a oedd angen gwasanaeth a oedd wedi'i deilwra'n arbennig i fynd i'r afael ag anghenion penodol yng Nghymru. Hysbysodd y Cyngor bod grymoedd marchnad sylweddol ar waith a bod refeniw hysbysebu ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol yn gostwng.

Wrth amlinellu'r sefyllfa bresennol o ran Darlledu fel Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru, dywedodd y Pennaeth Marchnata, Cyfathrebu a Chynulleidfaoedd bod y darparwyr yn cynnwys BBC Cymru Wales (teledu, radio ac ar-lein), teledu Cymraeg S4C (gan gynnwys deunydd gan y BBC) ac ITV Wales a fyddai'n darparu 5 awr o newyddion a 3 awr o gynnyrch nad yw'n newyddion bob wythnos o 2009 ymlaen.

Yna rhannodd y Pennaeth Marchnata, Cyfathrebu a Chynulleidfaoedd wybodaeth am rai o'r safbwyntiau a gasglwyd gan Ofcom yn ystod y gwaith ymchwil a gyfrannodd at ddogfen ymgynghori Cam Un yr adolygiad. Roedd aelodau o'r gynulleidfa yng Nghymru wedi dweud wrth Ofcom bod 'newyddion rhanbarthol o ansawdd da yn bwysig'. Dywedodd 81% o'r ymatebwyr bod hyn yn bwysig, ond dim ond 57% ohonynt oedd yn fodlon â'r ddarpariaeth bresennol. Dywedodd yr ymatebwyr ei bod yn bwysig cael rhaglenni rhanbarthol, heblaw rhaglenni newyddion, o ansawdd da hefyd - dywedodd 73% bod hyn yn bwysig, ond dim ond 42% oedd yn fodlon â'r ddarpariaeth. Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd a oedd portreadu Cymru ar draws y DU yn bwysig. Roedd 69% ohonynt yn ystyried hyn yn bwysig (yr un ffigwr â'r Alban) ond dim ond 40% oedd yn fodlon.

Hysbysodd y Cyngor bod dadansoddiad Ofcom o'r sefyllfa yng Nghymru yn cydnabod bod y 3 darlledwr yn darparu cynnyrch teledu cadarn i Gymru, ond bod darpariaeth y wasg genedlaethol (gwasg genedlaethol Cymru) yn wan. Roedd Ofcom yn cydnabod bod sefyllfa ariannol ITV Wales yn heriol ac mai bach iawn o raglenni'r rhwydwaith sy'n cael eu cynhyrchu yng Nghymru, er gwaethaf y cynnydd a wnaed gan y BBC yn y maes hwn. Yn 2006-07, nid oedd ITV na Channel 4 wedi darlledu unrhyw ddeunydd o Gymru a gomisiynwyd ar gyfer y rhwydwaith. Roedd Ofcom yn cydnabod hefyd bod cynnwys ar-lein a chynnwys lleol yn brin, ac er bod y ddarpariaeth iaith Gymraeg ar S4C yn sicr, dewis cyfyngedig oedd ar gael o safbwynt newyddion. Yn ogystal, hysbysodd y Cyngor mai darlledwr masnachol annibynnol sydd â'r drwydded ar gyfer sianel 3 yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, sy'n wahanol i'r sefyllfa yng Nghymru lle'r oedd yn rhan o ITV ccc.

Er bod Ofcom wedi cydnabod y materion ariannol a oedd yn wynebu ITV yng Nghymru, roedd yn rhaid gofyn o ble y byddai unrhyw arian ychwanegol yn dod? Roedd cynigion presennol Ofcom yn ystyried trethu uniongyrchol (fel yn achos S4C), ffi'r drwydded deledu (rhannu'r asedau ymysg darlledwyr, neu ddefnyddio dull tebyg i ffi'r drwydded deledu i godi arian i ddarlledwyr eraill ar wahân i'r BBC), pwyslais parhaol ar asedau rheoliadol e.e. sbectrwm, a chodi ardollau ar ddiwydiant megis ardollau ar Ddarparwyr Gwasanaeth Rhyngrwyd.

Yn ogystal, roedd Ofcom wedi nodi tri phrif fater o ddiddordeb arbennig i gynulleidfaoedd yng Nghymru, sef:

1. Sut yr oedd Cymru'n cael ei chyfleu i weddill y DU, a faint o raglenni ar gyfer y rhwydwaith a oedd yn cael eu cynhyrchu yng Nghymru. Dangosodd gwaith ymchwil Ofcom bod cynulleidfaoedd wedi dweud bod y materion hyn yn bwysig ac nad oedd y sefyllfa bresennol yn ddigon da. Roedd cynulleidfaoedd yng Nghymru o'r farn nad oedd newyddion y rhwydwaith ar draws y Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus yn ddigon da o safbwynt adlewyrchu a chynrychioli gwirionedd sefyllfa'r DU ar ôl datganoli - teimlad a oedd yn adleisio barn Cyngor Cynulleidfa Cymru ac Ymddiriedolaeth y BBC. Atgoffwyd y Cyngor bod tîm rheoli'r BBC yn paratoi cynlluniau i'w cyflwyno i'r Ymddiriedolaeth yn rhan o'r Adolygiad mewn perthynas â Chyflenwi'r Rhwydwaith.

2. Sut gellir cynnal dewis (lluosogrwydd) yn y newyddion a ddarlledir yng Nghymru? Pwysleisiodd Ofcom bod amrywiaeth llais a barn yn bwysig, a dywedodd ei fod wedi gofyn a allai'r BBC helpu i gefnogi hyn yng Nghymru. Ar hyn o bryd, roedd yn ymddangos mai ITV ccc oedd y dewis amlwg o safbwynt cynnig dewis arall yn lle'r BBC, ond y cwestiwn allweddol oedd a fyddai hyn yn talu ffordd i ITV yn ariannol yn yr amgylchiadau presennol, neu a fyddai angen sicrhau arian ychwanegol i gynnal hyn?

3. A ellir cynnal dewis yng Nghymru o safbwynt rhaglenni heblaw rhaglenni newyddion? Roedd *Coal House, Scrum V, The Ferret, Week in Week Out* a *Fishlock's Wildtracks* yn enghreifftiau o'r ddarpariaeth bresennol gan BBC Wales ac ITV Wales, ac roedd gan y rhaglenni hyn werth sylweddol o safbwynt gwylwyr a chynulleidfa. A fyddai Darlledu fel Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru yn y dyfodol yn datblygu'n fonopoli o raglenni teledu ffeithiol a rhaglenni'n ymwneud â'r celfyddydau, chwaraeon a hanes gan y BBC? Roedd profiad diweddar BBC Wales yn dangos bod datblygu talent a chynhyrchu rhaglenni ar gyfer y rhwydwaith yn perthyn i'w gilydd, a bod perygl y gallai rhoi gormod o bwyslais ar faterion yn ymwneud â'r ddarpariaeth newyddion daflu'r drafodaeth ynghylch rhaglenni heblaw rhaglenni newyddion i'r cysgod . Roedd hi'n bwysig cofio bod mwy o bobl yn gwylio rhaglenni nad oeddent yn rhaglenni newyddion ar ITV Wales nag oedd yn gwylio ei raglenni newyddion.

Pwysleisiodd Pennaeth Marchnata, Cyfathrebu a Chynulleidfaoedd Cymru bod materion ynghylch rhannu ffi'r drwydded deledu ymysg darlledwyr yn debygol o chwarae rhan fawr yn y drafodaeth ynghylch Darlledu fel Gwasanaethau Cyhoeddus yn y DU, a dywedodd ei bod yn bwysig ystyried yr effaith y bydd hyn yn ei chael yng Nghymru os bydd gofyn i'r BBC yn gyffredinol gwtogi ei waith. Pwysleisiodd bod lles ehangach y BBC yn y dyfodol yn hanfodol i sicrhau lles BBC Wales yn y dyfodol, yn enwedig o gofio bod y BBC a BBC Wales yn dibynnu ar ei gilydd mewn meysydd megis cynhyrchu rhaglenni ar gyfer y rhwydwaith, newyddion, chwaraeon a'r cerddorfeydd.

Yn ogystal, hysbysodd y Cyngor bod Ofcom wedi anwybyddu materion allweddol yn ymwneud â Darlledu fel Gwasanaeth Cyhoeddus i raddau helaeth gan ei fod ond yn gyfrifol yn statudol am edrych ar Ddarlledu fel Gwasanaeth Cyhoeddus o safbwynt y teledu. Roedd y materion hynny a anwybyddwyd yn cynnwys i ba raddau yr oedd radio digidol DAB ar gael, egwyddor cyffredinolrwydd, darparu gwasanaethau ar-lein, darparu isadeiledd mewn ardaloedd gwledig gan gynnwys darpariaeth band llydan, rôl radio masnachol ym maes Darlledu fel Gwasanaeth Cyhoeddus a rôl gwasanaethau lleol (a oedd yn ystyriaeth bwysig yng nghyswllt Cymru, lle'r oedd y sefyllfa o ran y wasg brint ddyddiol yn parhau i fod yn wan).

Hysbyswyd y Cyngor bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cynnal archwiliad o Ddarlledu fel Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru a fyddai'n cael ei fwydo i mewn i ymateb y Cyngor i

adolygiad Ofcom. Roedd Pwyllgor Darlledu'r Cynulliad Cenedlaethol yn cynnal ymchwiliad hefyd a fyddai'n arwain at drafodaeth mewn sesiwn lawn yn y Cynulliad. Roedd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol dros Gymru a Rheolwr BBC Wales wedi cael eu gwahodd i roi tystiolaeth o flaen y Pwyllgor hwn. Roedd y materion a godwyd gyda'r Pwyllgor yn barod yn cynnwys lluosogrwydd a phrinder rhaglenni a gynhyrchwyd i'r rhwydwaith yng Nghymru. Roedd peth tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor wedi awgrymu bod Ofcom yn rhy ofalus, ei fod yn canolbwyntio gormod ar y DU a'i fod wedi anwybyddu gwasanaethau ar-lein. Dywedwyd hefyd bod ystyried rôl radio a'r wasg brint yn hanfodol i unrhyw ystyriaeth o'r ddarpariaeth Darlledu fel Gwasanaeth Cyhoeddus. Dywedodd pobl eraill bod yn rhaid i Channel 4 gael ffocws newydd ar Gymru cyn y newid i deledu digidol - gan nad oedd yn bodoli o gwbl ar hyn o bryd.

Yn ei drafodaeth ddilynol roedd Cyngor Cynulleidfa Cymru o'r farn bod y materion canlynol ymysg y pwyntiau pwysicaf yr hoffai eu gwneud mewn unrhyw ymateb i'r adolygiad:

- Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd rôl y BBC fel sefydliad ym mywyd cenedlaethol Cymru, ac mae darpariaeth Cymraeg a Saesneg y BBC yn ganolog i Gymru.

- Roedd y Cyngor yn croesawu'r gydnabyddiaeth gan Ofcom bod diffygion yn y ddarpariaeth Darlledu fel Gwasanaeth Cyhoeddus yn y gwledydd unigol, ond beirniadwyd methiant Ofcom i archwilio ac esbonio'n gywir ystyr y gair 'lluosogrwydd' ac amlinellu'n gywir a oedd yn golygu lluosogrwydd o safbwynt daearyddiaeth, newyddion, gwleidyddiaeth neu unrhyw faes arall. Roedd y Cyngor o'r farn nad oedd dogfen Ofcom yn dweud digon o bell ffordd am luosogrwydd iaith, ac ni chafwyd unrhyw gydnabyddiaeth gan Ofcom bod modd i luosogrwydd gael ei gyflawni gan amrywiol wasanaethau un darlledwr yn ogystal â gan farchnad gystadleuol.

- Sylwodd y Cyngor mai ychydig iawn yr oedd dogfen Ofcom yn ei ddweud am gynulleidfaoedd neu eu hanghenion, a'i bod yn anwybyddu'r mater ynghylch cael mynediad i'r model presennol o Ddarlledu fel Gwasanaeth Cyhoeddus, e.e. diffyg darpariaeth Freeview lawn mewn rhannau o Gymru, a diffyg mynediad at orsafoedd radio cenedlaethol Cymru - Radio Cymru a Radio Wales - ar radio digidol DAB ar gyfer cyfran sylweddol o boblogaeth Cymru.

- Roedd y Cyngor o'r farn bod pob cynnig a oedd yn ymwneud â rhannu ffi'r drwydded deledu ymysg darlledwyr yn broblematig, nid lleiaf oherwydd y byddai'n peri dryswch ynghylch atebolrwydd.

Penderfynodd y Cyngor y dylai Cyngor Cynulleidfa Cymru geisio cael gwahoddiad i ymddangos o flaen Pwyllgor Darlledu'r Cynulliad Cenedlaethol yn ogystal â'r Ymddiriedolwr Cenedlaethol, oherwydd gallai mewnbwn y Cyngor gynnig safbwynt arall. Ystyriwyd y byddai cyflwyniad uniongyrchol yn fwy effeithiol na chyflwyniad ysgrifenedig.

Cafwyd cytundeb ymysg aelodau'r Cyngor bod y gair 'dewis' yn well na'r term 'lluosogrwydd', ac roedd llawer o waith wedi'i wneud ar Gylchoedd Gwaith Dibenion y BBC i sicrhau bod y BBC yn rhoi gwasanaeth da i'w gynulleidfaoedd, ac yn gwneud hynny trwy gynnig dewis. Roedd y Cyngor o'r farn bod sicrhau bod amrywiaeth o leisiau'n cael eu clywed a bod democratiaeth iach yn cael ei chefnogi wrth wraidd y mater yn ymwneud â lluosogrwydd. Mynegodd y Cyngor ei bryderon ynghylch y graddau yr oedd aelodau Pwyllgor Darlledu'r Cynulliad Cenedlaethol yn ymwybodol o'r ystod o leisiau a ddarperir gan BBC Wales.

Mynegodd y Cyngor y farn nad oedd y BBC yn endid monolithig, ond yn hytrach ei fod yn darparu ystod o leisiau yn Gymraeg ac yn Saesneg trwy ei ddarpariaeth. Dylai unrhyw gyflwyniad a baratowyd gan y Cyngor bwysleisio rhagoriaeth ac ansawdd darpariaeth BBC Wales. Roedd y Cyngor hefyd yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod Ymddiriedolaeth y BBC a Phwyllgor Darlledu'r Cynulliad Cenedlaethol yn ymwybodol o hyn.

Roedd y Cyngor o'r farn bod y ffaith bod Ofcom yn canolbwyntio ar deledu'n unig yn annigonol ar gyfer cynnal adolygiad iawn o ddarlledu fel gwasanaeth cyhoeddus, a phenderfynodd y dylai ymateb y Cyngor i'r Adolygiad bwysleisio'r angen i Ofcom ystyried y ddarpariaeth radio ac ar-lein yn rhan o Ddarlledu fel Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru. Roedd y Cyngor o'r farn bod yn rhaid cynnwys materion yn ymwneud â hygyrchedd (e.e. radio digidol DAB a band llydan) yn rhan o'r drafodaeth ar yr Adolygiad o Ddarlledu fel Gwasanaeth Cyhoeddus. Cytunodd y Cyngor mai cynulleidfaoedd oedd y prif fan cychwyn ar gyfer llunio ei ymateb, a dylai'r ymateb hwnnw gynnwys y sylwadau a dderbyniwyd gan y Cyngor yn ei ddigwyddiadau allgyrraedd ar faterion megis portreadu Cymru ar y rhwydwaith, cyflenwi rhaglenni i'r rhwydwaith ac ati. Y cwestiwn allweddol ar gyfer y Cyngor wrth baratoi ei gyflwyniad oedd beth yr oedd cynulleidfaoedd yng Nghymru ei eisiau a beth yr oedd ei angen arnynt.

Pwysleisiodd y Cyngor na ddylai golli golwg ar y mater yn ymwneud â chynaladwyedd yn y dyfodol gan ei fod yn ei ystyried yn fater pwysig iawn. Roedd chwalu'r gwasanaeth yn berygl gwirioneddol, ac os collir màs critigol gallai hynny danseilio creadigrwydd y BBC yng Nghymru.

Cytunodd y Cyngor y byddai'n dymuno gweld cystadleuaeth iach i'r BBC. Fodd bynnag, penderfynodd dynnu sylw at y meysydd hynny lle'r oedd y BBC eisoes yn cynnig dewis a darparu enghreifftiau o hyn e.e. *Coal House* - a oedd yn gynhyrchiad annibynnol ond a oedd wedi arwain at gydweithredu ag adrannau mewnol i sicrhau darpariaeth ar draws y llwyfannau.

**37. MATERION SYDD O FLAENORIAETH I YMDDIRIEDOLAETH Y BBC**

Ni nodwyd unrhyw faterion o flaenoriaeth, a phenderfynodd y Cyngor ganolbwyntio ar ei gyflwyniad i Ymddiriedolaeth y BBC ar Adolygiad Ofcom o Ddarlledu fel Gwasanaeth Cyhoeddus.

**38. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Atgoffwyd y Cyngor y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 6 Mehefin yng Nghanolfan Ddarlledu'r BBC, Caerdydd, ac y byddai cinio preifat yn cael ei gynnal ar gyfer aelodau'r Cyngor ar 5 Mehefin.

***